

GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

Amcan y safon hon yw diogelu pridd rhag erydiad trwy ofalu bod rhywfaint o dyfiant ar y pridd

Prif Ofynion

Rhaid diogelu'r pridd trwy gynnal lefel ofynnol o orchudd, ac eithrio lle byddai creu'r gorchudd yn gwrthdaro â gofynion GAEC 5.

Os ydych yn cynaeafu tir â chombein, peiriant cynaeafu porthiant neu beiriant lladd gwair, rhaid bodloni un o'r amodau canlynol bob amser, rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth:

- cadw sofr y cnwd yn y pridd,
- paratoi gwely had o fewn 14 diwrnod ar gyfer cnwd a hau'r cnwd o fewn 10 niwrnod ar ôl diwrnod gorffen paratoi'r gwely had.

Pwysig: os byddwch, trwy hau o fewn y cyfnod 10 niwrnod, yn mynd yn groes i ofynion GAEC 5, dylech hau'r cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro mor fuan â phosibl ar ôl i'r tir llawn dŵr sychu.

Archwiliadau maes

- I gadarnhau bod yna orchudd pridd derbyniol neu fod amodau wedi'ch rhwystro rhag cydymffurfio.
- I gadarnhau nad oes pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae.

Arferion da

- Sicrhewch fod gennych orchudd ar dir sydd wedi'i gynaeafu erbyn y gaeaf
- Gadewch sofr y cnwd rydych wedi'i gynaeafu ar y tir.
- Paratowch y pridd ar gyfer hau cnwd arno a heuwch y cnwd o fewn 10 niwrnod ar ôl paratoi'r pridd.
- Gadewch lain 5 metr o led o dir heb ei drin na'i aredig wrth droed cae ar lethr lle bo pridd yn debygol o erydu (e.e. cae o indrawn wedi'i gynaeafu'n hwyr heb sefydlu gorchudd erbyn y gaeaf).

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn